

Atodiad 2

Bwrdd Rhaglen – Cynllun Ymateb

Adroddiad Cynnydd – 8 Rhagfyr 2025

Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr Swyddog Adrodd: Gwern ap Rhisiart	
1. Nod Thema:	- Sicrhau y gwrandewir ar blant, a'u bod yn cael eu credu a'u cymryd o ddifri. - Rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i'w cadw'n ddiogel. - Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr.
2. Arweiniad a geisiir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. Canllawiau penodol: - A ddylem symud ymlaen ein hunain neu aros am ddeunydd LLC? (e.e. CPR-3)
3. Cynnydd hyd yma:	- Grŵp tasg a gorffen wedi'i sefydlu ar draws yr Adrannau Addysg a Phlant i ddatblygu polisi drafft (Llais y Plentyn) gyda mewnbwn y fforwm ieuenctid. - Mae'r Adran Addysg wedi ymgorffori gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming") yn y pecyn hyfforddiant diogelu ysgolion ar gyfer dechrau'r flwyddyn academiaidd (Medi 2025) - Cyflogir Cydlynnydd Fforwm Pobl Ifanc i helpu i ymgynghori â Fforwm Ieuenctid y Sir - gan roi cyfle i bobl ifanc leisio eu barn a chyfrannu at drafodaethau. - Gweithio'n agos gyda RASAC Gogledd Cymru i sicrhau bod cynlluniau cymorth personol addas, wedi'u teilwra yn eu lle ar gyfer dioddefwyr - Gwaith sgopio cychwynnol wedi'i wneud i ddeall gweithgarwch presennol ar draws y Cyngor mewn perthynas â llais, cyfranogiad a hawliau plant (bydd Cadeirydd y Bwrdd, Sally Holland, yn hwyluso gweithdy ar Hawliau Plant i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2026).
4. Heriau a wynebwyd:	Adnoddau: Cais corfforaethol wedi'i baratoi i sicrhau staff ychwanegol i gefnogi gweithredu CPR-6 (sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Plant bob amser yn siarad yn uniongyrchol â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'r plentyn wedi datgelu). Aros am arweiniad pellach: CPR-3 Gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming") yn y pecyn diogelu ysgolion – a ddylem symud ymlaen ein hunain neu aros am ddeunydd Llywodraeth Cymru?
5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:	- Datblygu polisi ar wrando ar lais y plentyn – erbyn Ebrill 2026 - Gweithredu hyfforddiant i staff i adnabod a dogfennu newidiadau ymddygiadol mewn plant a allai fod yn

	arwydd o feithrin perthnasoedd amhriodol neu gam-drin – erbyn mis Mawrth 2026. - Cefnogi dioddefwyr trawma a theilwra cymorth i gyfateb ag anghenion yr unigolyn – Parhaus - Cyflwyno system Bromcom newydd ar draws holl ysgolion Gwynedd, ochr yn ochr ag ymgyrch hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth – erbyn Medi 2027 - Adolygu'r adborth a gasglwyd gan Fforwm Ieuenctid y Sir a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw gamau gweithredu arfaethedig – Ionawr 2026 - Creu cynllun gweithredu ymarferol sy'n nodi blaenoriaethau, cyfrifoldebau ac amserlenni clir ar gyfer ymgorffori diwylliant sy'n canolbwyntio ar blant ar draws pob gwasanaeth – erbyn Ebrill 2026		
6. Risgiau / Adnoddau:	I'w gadarnhau – yn dibynnu ar adborth gan y Fforwm Ieuenctid		
7. Amserlenni:	CPR - 1	Ebrill 2026	
	CPR - 2	Ebrill 2026	
	CPR - 3	Mawrth 2026	
	CPR - 4	Medi 2027	
	CPR - 6	I'w gadarnhau	
	CPR - 7	Ionawr 2026	
	CPR - 8	I'w gadarnhau	
	CPR - 9 RP - A4 RP - A1	Parhaus	
	RP - A5	Parhaus	
	NEWYDD - 1	Mawrth 2026	

Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant Swyddog Adrodd: Dylan Owen

1. Nod Thema:	- Amddiffyn plant trwy sicrhau bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifri ac yn gweithredu arnynt yn gyflym. - Sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml-asiantaeth cyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. Canllawiau penodol: - CPR-15, RP-C2, RP-C2a – a yw'r Bwrdd yn fodlon â'r penderfyniad i aros am ganllawiau Llywodraeth Cymru?
3. Cynnydd hyd yma:	<u>Atgyfeiriadau Adran 5:</u>

	• Mae pob plentyn sy'n rhan o'r atgyfeiriad (mewn rhai achosion lle mae'r plentyn wedi cyfeirio plentyn arall ac nad yw'r datgeliad yn ymwneud â nhw) yn cael ymweliad gan weithiwr cymdeithasol a fydd yn gwrando arnynt. • Templedi trafodaeth a chyfarfodydd strategaeth diwygiedig fel bod gwybodaeth diogelu flaenorol ar gofnodion y plentyn yn cael ei dal a'i rhannu. • Mae'r ffurflen atgyfeirio wedi'i hychwanegu at y wefan o dan Cam-drin Plant, Plant a Chefnogi Teuluoedd, a Chadw Disgyblion yn Ddiogel. Mae e-bost hefyd wedi cael ei anfon at holl benaethiaid ysgolion Gwynedd gyda'r ffurflen ynghlwm fel nodyn atgoffa. • Ar hyn o bryd mae atgyfeiriadau yn cael eu sgrinio gan yr IAA ac mae trafodaethau yn digwydd gyda naill ai'r LADO neu'r DOS ynghylch yr angen i gychwyn gweithdrefnau Rhan 5. <u>Polisi Pryderon Lefel Isel</u> • Mae ymarfer sgopio ar y Polisiau a ddefnyddir yn Lloegr wedi'i gwblhau. • Ar 18.11.25, cyfarfu staff o Addysg, Diogelu (Plant ac Oedolion) ac Adnoddau Dynol i ystyried yr hyn y gallai Gwynedd ei weithredu wrth aros am eglurhad gan Lywodraeth Cymru. <u>Tîm Diogelu a Llesiant Ysgolion</u> • Mae'r tîm wedi hysbysebu am 4ydd aelod. 9 wedi gwneud cais, bydd penodiad cyn diwedd y tymor hwn. • Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant yn cwrdd â Thimau rheoli gweithredol (Adran Plant) i sicrhau gwell dealltwriaeth o rolau.
4. Heriau a wynebwyd:	<u>CPR-12: Mae'n ofyniad bod trothwyon ar gyfer galw'r gweithdrefnau yn cael eu penderfynu mewn cyfarfod aml-asiantaeth ac nid gan y LADO yn unig, ac yn ystyried pryderon, cwynion a honiadau blaenorol.</u> Gall cydlynu penderfyniadau trothwy aml-asiantaeth gymryd llawer o amser ac yn anodd eu hamserlennu, sy'n peryglu oedi camau diogelu brys. Bydd yr Adran Plant yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau partner i archwilio opsiynau fel cyfarfodydd rheolaidd. Disgwylir trafodaeth bellach ar y mater hwn a hyfywedd ar draws y rhanbarth yn NWSB mis Rhagfyr. <u>CPR-15, RP-C2, RP-C2a - Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu Polisi Ymddygiad Oedolyn sy'n Peri Pryder' (a elwir yn Lloegr yn Bolisi Pryderon Lefel Isel') gan ystyried cynhyrchu canllawiau ar arferion gweithio diogel.</u> Oherwydd pryderon am:

	1. Gwerth cyfyngedig ymagwedd Gwynedd yn unig pan fydd staff yn gweithio'n aml ar draws rhanbarth Gogledd a Chanolbarth Cymru, 2. goblygiadau rheoli data, a 3. Materion adnoddau dynol a gwaith teg, gan gynnwys absenoldeb diffiniad statudol o "bryderon lefel isel", Gwnaed y penderfyniad i ohirio gweithredu Polisi Pryderon Lefel Isel nes bod canllawiau cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn ystyried adfer cofnod canolog o staff sy'n ymwneud â phrosesau diogelu Rhan 5, ond gyda meini prawf a diffiniadau cliriach. Mae'n ymgysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos i adolygu eu hymagweddau a nodi elfennau y gellid eu mabwysiadu yng Ngwynedd.
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Y cynllun yw recriwtio Swyddog Dynodedig ychwanegol ar gyfer Diogelu (DOS) a fydd hefyd yn datblygu cynllun archwilio ar gyfer yr Adran. Bydd y cynllun archwilio yn cynnwys adolygu pwy sy'n mynychu trafodaethau strategaeth ac ansawdd cofnodion gwneud penderfyniadau. • Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd (e.e., chwarterol) i gryfhau cydweithrediad rhwng yr Adrannau Addysg a Phlant a Chefnogi Teuluoedd. • Mae cyfarfod pellach wedi'i gynllunio gyda Gwasanaethau Oedolion i ystyried goblygiadau ehangach ar gyfer gwneud penderfyniadau trothwy Diogelu. • Gweithio gyda'r adran TG i ddatblygu fersiwn ddigidol o'r ffurflen atgyfeirio fel nad oes angen i ddefnyddwyr lawrlwytho PDF a'i anfon trwy e-bost mwyach. Nodir bod y ffurflen yn ddogfen ranbarthol ac ar hyn o bryd mae cynlluniau i fabwysiadu un ffurflen atgyfeirio ledled y wlad.
6. Risgiau / Adnoddau:	Adnoddau: • Cyflogi DOS ychwanegol a fydd hefyd yn arwain ar y Fframwaith Archwilio ar gyfer yr Adran. • Bydd yr Adran yn asesu a fydd angen adnoddau neu staff ychwanegol i gefnogi'r argymhelliad bod trafodaethau aml-asiantaeth yn cael eu cynnal i asesu trothwyon ar gyfer unrhyw bryderon sy'n ymwneud ag unigolion mewn swyddi cyfrifol. Risg: • Sicrhau bod perchnogaeth systemau yn newid gan y gweithlu.

7. Amserlenni:	CPR -11	I'w gadarnhau
	CPR - 14	I'w gadarnhau
	RP- B5	Parhaus
	CPR - 15	Hyd 25 – Ebrill
	RP- C2	26
	RP - C2a	
	CPR - 12	I'w gadarnhau
	CPR - 5	Medi 25
	NEW- 2	Parhaus
	NEW- 3	Parhaus
	NEW- 4	I'w gadarnhau
	NEW- 5	Parhaus
	NEW- 6	Parhaus
	NEW- 7	Parhaus
	CPR - 10	I'w gadarnhau
	CPR 16	I'w gadarnhau
	RP- B2	Parhaus
	NEW- 8	Parhaus
	NEW- 9	Parhaus
	NEW- 10	Parhaus

Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau

Swyddog Adrodd: Ian Jones

1. Nod Thema:	Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall “y gallai ddigwydd yma”.
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. Canllawiau penodol: - CPR-18, 19 - A ddylem ychwanegu sleidiau ar fodel Finklehor mewn pecynnau hyfforddi neu aros am ddatblygu hyfforddiant cydnabyddedig?
3. Cynnydd hyd yma:	- Mae'r Polisi Canu'r Gloch wedi'i ddiwygio a'i gylchredeg i'r Bwrdd am sylwadau (gweler <i>eitem 5 ar yr Agenda</i>). - Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant yn yr Adran Addysg yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i'r Unigolion Diogelu Dynodedig mewn ysgolion ledled Gwynedd. - Penodi rôl Hyrwyddwr Diogelu i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth - Mae dangosfwrdd perfformiad bob adran yn adrodd ar y canran o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu a VAWDASV gyda monitro rheolaidd yn ei le ynghylch y defnydd o hyfforddiant gorfodol. - Mae pob ysgol wedi derbyn Ymweliad Monitro yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae amserlen ymweld flynyddol yn ei lle ers mis Ionawr 2025 ymlaen (mae

	hyn yn mynd y tu hwnt i'r canllawiau cenedlaethol o ymweliad bob 2 flynedd).	
4. Heriau a wynebwyd:	- Dibyniaethau ynghylch darpariaeth hyfforddiant gan gyrff eraill, e.e. - Dim darpariaeth hyfforddiant gydnabyddedig ar waith ar gyfer modus operandi troseddwy rhyw a meithrin perthnasoedd amhriodol gan droseddwy rhyw (model Finklehor) - Aros am ymateb gan Gofal Cymdeithasol Cymru i benderfynu sut y gellir addasu'r hyfforddiant a ddarperir yng Ngwynedd (hyfforddiant cadw cofnodion diogelu ychwanegol) - Hyfforddiant a goruchwyliaeth rheolaidd LADO - RP-B6 – <i>Ymchwiliad craffu ar drefniadau diogelu</i> - Disgwylir iddo adrodd i'r Pwyllgor Craffu ym mis Rhagfyr 2025 ond mae hyn wedi llithro i 12 Chwefror 2026 oherwydd y broses o gaffael a phenodi darparwr allanol i ymgymryd ag ymchwil ar lais y plentyn.	
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	- Mabwysiadu polisi canu'r gloch diwygiedig – Cabinet (Ionawr 26), Cyngor Llawn (Mawrth 26) a gweithredu'r polisi (Ebrill 26) - Cynllun cyfathrebu clir ar gyfer holl staff y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion timau rheng flaen – Tachwedd 2025. - Is-grŵp i ddatblygu a chynhyrchu offer ymarferol i atgyfnerthu a hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor - I'w gadarnhau - Ychwanegu hyfforddiant cadw cofnodion diogelu ychwanegol i'r e-fodiwl presennol gyda chytundeb SCW - Tachwedd 2025. - Adroddiad Ymchwiliad Craffu (Trefniadau Diogelu) - Chwefror 2026 - Adolygiad pellach o'r Polisi Diogelu Corfforaethol – Ebrill 2026	
6. Risgiau / Adnoddau:	Adnoddau: CPR –24 - Gyda bron i 100 o Unigolion Diogelu Dynodedig mewn ysgolion (heb gynnwys dirprwy DSP), bydd angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r argymhelliad hwn yn effeithiol. Adnoddau: RP-B2 - Gwaith i'w wneud ar gyfrifon e-bost ar gyfer staff (yn enwedig rheng flaen) i'w galluogi i gwblhau hyfforddiant gorfodol. Cyflwynwyd cais am gyllid sylweddol er mwyn gwella hyn.	
7. Amserlenni:	CPR - 17	I'w gadarnhau gan LIC
	CPR - 18	i'w gadarnhau
	CPR - 19	I'w gadarnhau (gweler CPR-18)
	CPR - 20	Ebrill 2026
	CPR -13	i'w gadarnhau

	CPR - 24	i'w gadarnhau
	RP- C2	Rhagfyr 2025
	RP- B1b	Parhaus
	RP- B2	Cwblhau
	RP- C2d	Parhaus
	NEW- 11	i'w gadarnhau
	RP- B1	Ebrill 2026
	RP- B2	i'w gadarnhau
	RP- B1a	Mehefin 2026
	RP- B1c	Cwblhau
	RP- B5	Cwblhau
	RP- B6	Rhagfyr 2025

Thema 4 - Llywodraethu Swyddog Adrodd: I'w gadarnhau	
1. Nod Thema:	- Sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau neu gadw plant yn ddiogel - Sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n mesur iechyd a diwylliant ehangach ysgolion
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. Canllawiau penodol: - Mae amserlenni yn risg ar hyn o bryd – rhagwelir y bydd adolygiad Llywodraeth Cymru yn cymryd rhwng 6 a 9 mis. A allwn ni symud ymlaen yn gynt gyda rhai o'r argymhellion? Sut?
3. Cynnydd hyd yma:	- Hyfforddiant diogelu gorfodol yn ei le ar gyfer pob Cadeirydd a Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn ysgolion. - Ei gwneud hi'n orfodol i Lywodraethwyr gwblhau hyfforddiant diogelu sylfaenol - Llawlyfr llywodraethwr newydd wedi'i rannu gyda'r holl lywodraethwyr - Dechrau coladu gwybodaeth i asesu sefyllfa'r ysgol gan gynnwys iechyd a diwylliant ehangach
4. Heriau a wynebwyd:	Dibyniaethau - yn aros am arweiniad pellach gan LLC yn dilyn ei adolygiad o drefniadau llywodraethu o fewn ysgolion
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	- Adran Addysg i ddatblygu a chylchredeg agenda / rhaglen sefydlog ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd, a fydd yn canolbwyntio ar faterion diogelu a lles, ynghyd â darparu'r data priodol i'w helpu i asesu sefyllfa'r ysgolion - Ymateb i argymhellion gan adolygiad Llywodraeth Cymru o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion yng Nghymru

6. Risgiau / Adnoddau:	• Adnoddau: RP-Ch7 - Bydd angen swyddog ychwanegol arnom i gefnogi 94 o gyrff llywodraethu. Ar hyn o bryd mae gennym un swyddog. Rydym wedi derbyn grant gan LIC a fydd yn caniatáu i ni benodi swyddog ychwanegol. • Adnoddau: CPR-22 - Bydd angen adnoddau arnom i greu dangosfwrdd a fyddai'n hwyluso casglu data o'r fath.		
7. Amserlenni:	CPR - 21	i'w gadarnhau	
	CPR - 22	i'w gadarnhau	
	CPR - 23	i'w gadarnhau	
	RP- C3	i'w gadarnhau	
	RP- Ch7	i'w gadarnhau	
	RP- Ch6	Mehefin 2026	
	NEW- 12	i'w gadarnhau	

Thema 5 – Arferion Cyfyngol Swyddog Adrodd: I'w gadarnhau			
1. Nod Thema:	• Diweddarau canllawiau am ffilmio atal yn gorfforol gan oedolion, a sut y dylid cadw cofnodion ffilmio.		
2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.		
3. Cynnydd hyd yma:	• Gweithredodd y troseddwr yn groes i'r Polisi Ysgolion trwy ffilmio achosion - nid yw hyn yn arfer safonol. • Yn ystod ymweliadau Sicrwydd Ansawdd rydym bob amser yn edrych ar y polisi arfer cyfyngol i sicrhau bod hynny'n cyd-fynd â'r polisi enghreifftiol a ddarperir. Darperir hyfforddiant am ddim trwy'r tîm cynhwysiant.		
4. Heriau a wynebwyd:	• Angen cynnal trafodaeth fewnol ar y defnydd o rym rhesymol, yn enwedig gan fod dau fath o hyfforddiant ar gael ar hyn o bryd sy'n addysgu technegau gwahanol. Mae gan yr Adran Addysg arbenigwyr sydd wedi'u hyfforddi ym maes DPP ac felly byddai cysoni'r dulliau hyfforddi yn fan cychwyn da i sicrhau dull clir, cyson a diogel ar draws y gwasanaethau.		
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Adolygu polisi'r Cyngor ar Arferion Cyfyngol a sicrhau bod pob ysgol yn mabwysiadu'r polisi enghreifftiol		
6. Risgiau / Adnoddau:	• i'w gadarnhau		
7. Amserlenni:	• i'w gadarnhau		

Thema 6 - Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng Swyddog Adrodd: Catrin Love	
1. Nod Thema:	• Sicrhau bod cynllun clir, strategol a chydgyssylltiedig ar waith mewn achos o argyfwng

2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:	Gofynnwn i'r Bwrdd; - Herio a chraffu ar gynnydd - Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.		
3. Cynnydd hyd yma:	• Grŵp tasg mewnol wedi'i sefydlu i adolygu'r cynlluniau cyfredol sydd ar waith ar lefel strategol a gweithredol i ymateb i ddigwyddiadau critigol. Bydd y gwaith yn tynnu ar arfer da yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. • Canllawiau ar waith ar gyfer y Corff Llywodraethu (Polisi Diogelu) ers 2019. Bydd yr adran addysg yn cynnal gwiriadau i sicrhau bod staff yn ymwybodol o hyn.		
4. Heriau a wynebwyd:	• i'w gadarnhau		
5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:	• Cynllun drafft yn ei le erbyn Rhagfyr 2026 • Unwaith y bydd y cynllun wedi'i gytuno, bydd angen rhaglen gweithredu a hyfforddiant (Ebrill 2026)		
6. Risgiau / Adnoddau:	• i'w gadarnhau		
7. Amserlenni:	CPR - 26a	Cynllun drafft erbyn 31/12/25	
	CPR - 26b	i'w gadarnhau	
	CPR - 26c	i'w gadarnhau	
	CPR - 26d	Ebrill 2026	
	PR- C2e	Cwblhau	